# Board Paper

29 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Cynllun Ymgysylltu Sector Academaidd Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Papur B B 60.16** |
| **Noddir y Papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | **Michael Evans, Kathryn Monk** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Datblygiad / Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Rydym yn ceisio cyngor y Bwrdd ar flaenoriaethau cymharol ar gyfer y strategaeth ymgysylltu gyffredinol, canllawiau ar feysydd allweddol lle y gall ein perthynas â'r sector academaidd gael ei chryfhau yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac awgrymiadau i ddatblygu rhyngweithiadau busnes ac arloesi. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:**Noder – efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y <u>tymor hir</u>:**Mae cynllun ymgysylltu academaidd/allanol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer tystiolaeth yn canolbwyntio ar y cychwyn ar ddatblygu perthnasau strategol hirdymor gyda phob un o naw prifysgol Cymru, ac yna gyda darparwyr tystiolaeth eraill. Bydd y perthnasau hyn yn llywio datblygiad a darpariaeth agenda a rennir er budd Cymru.<br><br>**Mabwysiadu dull <u>integredig</u>:**Mae cylchred bywyd tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil sy'n arwain at broses llunio polisïau effeithiol yn gymhleth ac yn gallu bod yn hirfaith. Bydd cynllun cryf a chydgysylltiol ar gyfer ymgysylltu academaidd yn codi gallu Cyfoeth Naturiol |

| | |
|---|---|
| | Cymru i osod yr agenda yn ogystal â datblygu fforymau ar gyfer cynllunio rhyngsectoraidd yn y dyfodol. Mae ymgysylltu â'r sector academaidd yn rhoi mynediad i Gyfoeth Naturiol Cymru at dystiolaeth, gwaith dadansoddi, a sgiliau nad ydynt ar gael yn fewnol nac unrhyw le arall yn y sector cyhoeddus.<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:** Mae ffigyrau 2012/13 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n nodi bod 8% o fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, o gymharu â 4% ar gyfer poblogaeth Cymru gyfan. Bwriad y strategaeth yw meithrin ymgysylltiad gyda phob lefel hierarchaeth o fewn sefydliadau addysg uwch, o israddedigion i uwch-reolwyr. Mae ymgysylltiad â sefydliadau addysg uwch yn datgelu isadran amrywiaethol o boblogaeth i waith Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector academaidd yn gallu darparu lefel uchel o arbenigedd a chefnogaeth gilyddol. Mae'r cynllun o gysylltiadau parhaus yn gydweithredol yn ei natur, gyda chanlyniadau o fudd cilyddol.<br><br>**Atal problemau rhag codi:** Mae cysylltiad agos gyda'r cymunedau sy'n seiliedig ar ymchwil yn rhoi mynediad at arbenigwyr yn eu maes i Gyfoeth Naturiol Cymru, ac yn creu cysylltiadau gyda nhw, ac mae’r rhain yn gallu cefnogi gwelliannau ymyriad gweithredol yn ogystal â rhagweld problemau yn y dyfodol, e.e. ein partneriaeth ag Ysgol Gwyddorau’r Eigion Prifysgol Bangor i ddatblygu system rybuddio gynnar ar gyfer rhywogaethau morol estron a gweithdy dyfodol sefydliadau addysg uwch ledled Cymru gyda chynllunio corfforaethol. |

**Mater**

1. Mae perthnasau Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r sector academaidd yn dod yn fwyfwy gwerthfawr oherwydd cyfyngiadau adnoddau yn y sector cyhoeddus. Mae sefydliadau addysg uwch newydd ddechrau sylweddoli'r cyfyngiadau cyllideb sydd o'u blaenau. Mae'r ddwy yn rhannu lefel sylweddol o dir cyffredin ac yn gallu gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gyflenwol, yn enwedig wrth gasglu tystiolaeth. Drwy gronni arbenigedd ac adnoddau, gall y prifysgolion a Chyfoeth Naturiol Cymru ddiwallu eu hamcanion priodol wrth gyfrannu at

ddatblygiad polisi ac ymyriadau gweithredol cyfunedig. Oherwydd y gwerth cynyddol hwn, mae dull strategol wedi cael ei ddatblygu i gryfhau a ffurfioli'r cysylltiadau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a phrifysgolion, gan ddechrau gyda'r rheiny sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud mewn sawl maes agenda ymgysylltu Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r sector hwn. Mae'r papur hwn yn manylu'r rhain ac yn chwilio am awgrymiadau am welliant ac arloesedd.

**<u>Cefndir</u>**

2. Ers cyflwyno'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn 2014, mae prifysgolion wedi bod yn awyddus i weithio gydag asiantaethau llywodraethol, oherwydd bod cyllid wedi dod yn ddibynnol ar effaith academaidd a defnyddwyr. Bydd prifysgolion a Chyfoeth Naturiol Cymru ill dau ar eu hennill drwy ddatblygu dull mwy strategol o gydweithio yn nhermau gwybodaeth (e.e. arbenigedd a data ymchwil/tystiolaeth, cydweithio ar ddatblygu polisïau a dysgu amlgyfeiriol a chyfleoedd datblygu i staff) ac mewn adnoddau corfforol (cyd-leoli a mynediad at offer).

3. Mae crynodeb o gynnydd allweddol yn dilyn.

4. <u>Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgolion Cymru</u> – gwnaeth Emyr Roberts a'r Athro Colin Riordan (Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd a Chadeirydd Prifysgolion Cymru) gytuno i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth strategol lefel uchel ar 19 Ebrill 2016, gan ymrwymo i gyd-drefniant a chydweithrediad trefniadol. Mae'n cwmpasu pedwar maes allweddol:
   a. darparu tystiolaeth;
   b. dysgu a datblygu;
   c. rhannu asedau a chyfleusterau;
   d. busnes ac arloesedd.

   Bydd Emyr Roberts yn cyfarfod â Grŵp Is-gangellorion Cymru Gyfan yn flynyddol.

5. <u>Grŵp Tystiolaeth Allanol ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru</u> – mae hwn yn chwarae rôl canolbwyntio cyd-drefniant ar gyfer y rhaglen waith a gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru eraill sy'n berthnasol i brifysgolion, gyda Michael Evans fel y gweithredwr rhaglen, Kathryn Monk fel y rheolwr prosiect, a chefnogwyr neu arweinwyr ar gyfer pob elfen o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

6. <u>Ymweliadau prifysgolion</u> – mae ymweliadau ffurfiol gan Emyr Roberts a staff i Aberystwyth, Bangor, Abertawe, y Drindod Dewi Sant a Glyndŵr wedi cael eu cynnal dros y 18 mis diwethaf i wella dealltwriaeth ynglŷn â busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ysgogi cydweithrediad. Mae ymweliad i Brifysgol Metropolitan Caerdydd wedi'i gadarnhau ar gyfer 3 Tachwedd 2016 ac mae ymweliad i Brifysgol De Cymru o hyd i'w gadarnhau, yn ogystal â darlith gyhoeddus arfaethedig ym Mhrifysgol Caerdydd. (Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r nawfed prifysgol.)

7. <u>Gweithdai ar draws Cymru</u> – cynhaliwyd dau weithdy peilot ar heriau traws-ddiwylliannol a gweithio cydweithredol yng Nghaerdydd (2015) ac Aberystwyth (Mehefin 2016). Bydd trydydd gweithdy yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2016. Mae nifer o weithdai sy'n canolbwyntio ar bolisïau hefyd wedi cael eu cynnal, ac mae mwy o weithdai sy'n canolbwyntio ar bynciau i ddechrau gwaith mewn meysydd newydd yn cael eu cydnabod.

8. <u>Platfform Tystiolaeth Sefydliadau Addysg Uwch/Cyfoeth Naturiol Cymru</u> – yn dilyn trafodaeth sylweddol, mae hyn wedi'i berchen gan y naw prifysgol yng Nghymru, ac yn datblygu'n dda. Mae cynnig cyllido i ffurfioli'i arweinyddiaeth wedi cael ei drafod gan Brifysgolion Cymru ers mis Mawrth. Mae newidiadau cyllideb diweddar wedi achosi trafodaeth bellach. Bwriedir i'r platfform hwn fod yn brif sianel ar gyfer ymgysylltu, llif gwybodaeth a cheisiadau strategol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a defnyddwyr tystiolaeth eraill a'r darparwyr academaidd. Mae'r platfform hefyd yn brif gyswllt ar gyfer rhannu Asedau a chyfleusterau. Mae Kathryn Monk wedi cael ei chyfethol ar gyfer Grŵp Ymchwil Dirprwy Is-gangellorion Cymru Gyfan, a roddodd gychwyn i waith y platfform tystiolaeth hwn.

9. <u>Dysgu a Datblygu</u> – gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarfod yn gynhyrchiol gyda Grŵp Addysgu a Dysgu Dirprwy Is-gangellorion Cymru Gyfan. Gwnaeth y Bwrdd Rhaglen Datblygu ein Pobl a'n Timau gefnogi'r dull a chydnabod y potensial ym mis Mai 2016. Mae cynnydd yn cael ei rwystro gan ddiffyg adnoddau staff.

10. <u>Cyfleusterau ac Asedau</u> – gwnaeth Pennaeth Asedau Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, David Letellier, gyflwyno tystiolaeth i blatform tystiolaeth sefydliadau addysg uwch ym mis Mai 2016 ac mae wedi dechrau ymweld â champysau gwahanol er mwyn adnabod cyfleoedd yn y dyfodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn aelod o Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru, a thrwy hyn gallwn ddatblygu cytundebau ynghylch mynediad staff Cyfoeth Naturiol Cymru i lyfrgelloedd prifysgolion ac i adnoddau ar-lein ledled Cymru.

11. <u>Busnes ac Arloesi</u> – nid yw hyn wedi cael ei ddatblygu gyda'r prifysgolion eto. Mae cam cyntaf wedi'i wneud yn fewnol gyda chreu Grŵp Arloesi peilot ledled Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r grŵp yn cydnabod bod arloesedd ymddygiadol

a thechnolegol yn hanfodol a bydd yn archwilio sut y gall fod yn effeithiol wrth gynyddu cyfleoedd ar gyfer arloesedd rhwng y ddau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sefydliadau addysg uwch. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ymgysylltu â'r prifysgolion yn natblygiad Corff Arloesedd Cenedlaethol Cymru.

## Asesiad

12. Cofnodi cysylltiadau allanol ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru – mae pob lefel o ryngweithiadau tystiolaeth allanol yn cael eu cofnodi'n ganolog yn fwyfwy. Gan fod hyn yn broses wirfoddol, llaw, mae'n debygol bod y rhif a'r math o ryngweithiadau heb eu gohebu'n ddigonol.

13. Llythyrau cefnogaeth – rhwng mis Ebrill 2014 a mis Awst 2016, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau ansawdd a chofrestru 26 llythyr cefnogaeth i sefydliadau ar gyfer cynigion cyllido prosiectau allanol. O'r rhain, roedd 12 (46%) yn llwyddiannus, roedd 11 yn aflwyddiannus, ac mae tri naill ai'n disgwyl penderfyniad neu â chanlyniadau anhysbys. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol i gyfradd gyffredinol cynigion llwyddiannus ar gyfer grantiau Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, er enghraifft, sydd tua 25%.

14. Dadansoddiad meintiol o gysylltiadau – mae 103 aelod o staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael 365 o ryngweithiadau gwahanol gyda 133 sefydliad darparu tystiolaeth allanol. Roedd 43% o'r rhyngweithiadau hyn gyda phrifysgolion yng Nghymru. Yn 28% o bob rhyngweithiad, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rôl partner anffurfiol, yn 22% fel rheolwyr prosiect, yn 11% fel partneriaid ffurfiol, ac yn 5% mewn rolau ffurfiol neu oruchwyliol mewn astudiaethau ôl-raddedig. **Adroddiad cryno yn Atodiad 2.**

## Argymhelliad/Argymhellion

15. Rydym yn ceisio cyngor y Bwrdd ar flaenoriaethau cymharol ar gyfer y strategaeth ymgysylltu gyffredinol, canllawiau ar feysydd allweddol lle y gall ein perthnasau gyda'r sector academaidd gael eu cryfhau'n effeithiol, ac awgrymiadau i ddatblygu'r rhyngweithiadau busnes ac arloesedd.

## Risgiau Allweddol

16. Bydd methu ag ymgysylltu'n strategol gyda'r sector academaidd yn ein hatal rhag gwireddu'r buddion posibl lluosog a ddisgrifir uchod, sy'n atal cydweithrediad ac yn lleihau effeithlonrwydd rhaglenni o fewn y ddau sector.

## Goblygiadau Ariannol

17. Nid yw llawer o gostau uniongyrchol wrth gynnal gwaith cydweithredol gyda'r sector addysg uwch, ac mae ganddo'r potensial i wasgaru costau cyfalaf

prosiectau ar draws sail ehangach, i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan drwy leihau dyblygu ymdrechion, ac i hwyluso ymrwymiad parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru i arloesedd wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**<u>Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb</u>**

18. Nid oedd angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**<u>Mynegai o Atodiadau</u>**

1. Strwythur y Rhwydwaith Tystiolaeth
2. Data ar sefydliadau addysg uwch a chysylltiadau tystiolaeth eraill.

# Board Paper